Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad 2023 i Gymru

## Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru yn 2022/23

### Cyflwyniad

Yn 2023, cynhaliwyd 13eg arolwg blynyddol Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Bob yn ail, mae'r arolwg yn un safonol ac un sydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2023 yn fersiwn safonol, ac yn ymdrin â'r flwyddyn academaidd 2022/23.[1]

Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 14[2] gwasanaeth yng Nghymru, gan gynrychioli 22 ardal awdurdod lleol a gyda chyfradd ymateb o 100%.

### Cynnwys


Crynodeb o ganfyddiadau allweddol ........ 3

RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru ........ 5

RHAN 2: Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol arall ........ 15

RHAN 3: Cymorth ôl-16 ........ 22

RHAN 4: Cymorth a ddarperir ........ 24

Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol ........ 29


[1] Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/CRIDE neu ar wefan BATOD yn https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/.

[2] Roedd 15 gwasanaeth adeg arolwg 2022. Ers hynny, mae gwasanaeth Conwy wedi ymuno â gwasanaeth consortiwm Gogledd Ddwyrain Cymru.

**Dehongli’r canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa o 31 Ionawr 2023 ymlaen.

Cydnabuwyd yn yr arolwg nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy'r arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn rhai ardaloedd.

Fel y gwelwn yn ddiweddarach, mae’n amlwg bod rhai gwasanaethau dal i brofi anawsterau wrth gael data am blant byddar yn eu hardaloedd ac mae yna anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb drwy gydol yr arolwg. Weithiau gall y gyfradd ymateb i gwestiynau unigol amrywio a gall anomaleddau ymddangos weithiau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i unrhyw anghysondebau sy’n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd. Ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o’r fath. **Felly, dylid defnyddio’r canlyniadau â gofal o hyd.** Dylid defnyddio gofal hefyd oherwydd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posib yn narpariaeth data rhwng arolygon.

Noder bod pob canran yn yr arolwg hwn wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Nodwch hefyd lle mae yna garfan o lai na phump o blant yn unrhyw un o’r tablau yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi ‘<5’ yn lle’r ffigur ac wedi defnyddio sero wrth gyfrifo’r cyfansymiau yn y tabl hwnnw. Defnyddir serennig yn erbyn y cyfanswm i ddangos hwn.

# Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

*Nifer y plant byddar*

- Mae o leiaf 2,260 o blant byddar yng Nghymru, gostyngiad cofnodedig o 3% o 2,329 yn 2022.
- Mae 81% o blant byddar oedran ysgol yn mynychu ysgolion prif ffrwd; mae 8% yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau, gyda 9% yn mynychu ysgolion arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol. Mae 1% yn cael eu haddysgu gartref.
- Cofnodwyd bod gan 24% o blant byddar angen dysgu ychwanegol[3] arall, mae hyn yn gynnydd o 20% yn 2021.
- Mae 5% o blant byddar yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol gartref.
- Adroddodd 23% o wasanaethau eu bod yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar dros 19 mlwydd oed.

*Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol eraill*

- Mae o leiaf 65 swydd Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar (AYB), ac o'r rhain mae 2% ohonynt yn wag. O'r 64.3 aelod staff CALl sy'n gweithio fel AYB, roedd 93% ohonynt yn meddu ar y cymhwyster gorfodol ac 7% ohonynt o dan hyfforddiant.
- Mae nifer yr AYB mewn cyflogaeth sy'n gweithio mewn rôl beripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol wedi codi 3% ers 2022 a gostwng 17% ers inni ddechrau'r arolwg yn 2011.
- Mae 36% o AYB peripatetig yn 50 oed neu'n hŷn ac felly yn debygol o ymddeol yn y 10 i 15 mlynedd nesaf.
- Mae o leiaf 44 swydd i staff cymorth arbenigol eraill a gyflogir yn uniongyrchol gan wasanaethau addysg arbenigol awdurdodau lleol, ac o'r swyddi hyn mae 2% ohonynt yn wag.

*Darpariaeth adnoddau*

- Cofnodwyd bod 19 darpariaeth adnoddau, sef yr un nifer a adroddwyd yn 2022. Gan edrych ar ymlediad darpariaethau adnoddau ledled Cymru, ar gyfartaledd, mae un ddarpariaeth adnoddau i bob 119 plentyn byddar. Mae hyn wedi codi ers 2022 pan oedd un ddarpariaeth adnoddau i bob 122 plentyn byddar.

*Canlyniadau*

- Mae 15% o wasanaethau yn adrodd eu bod yn casglu data ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i bob plentyn byddar, a 23% yn gwneud hyn i'r plant byddar ar eu llwyth achos.

*Atgyfeiriadau*

- Dywedodd gwasanaethau eu bod wedi derbyn 449 o atgyfeiriadau yn ystod blwyddyn galendr 2022, cynnydd o 325 yn 2021.
- Daeth 8% o atgyfeiriadau i wasanaethau o'r rhaglen sgrinio clyw babanod yn 2022. O'r rhain, cafodd 85% eu cysylltu gan AYB o fewn 2 niwrnod gwaith.
- Daeth 24% o atgyfeiriadau i wasanaethau o'r tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn i blentyn ddechrau addysg statudol. O'r rhain, cafodd 62% eu cysylltu gan AYB o fewn 5 diwrnod gwaith.

---

[3] Diffinnir fel unrhyw angen dysgu ychwanegol ar wahân i fyddardod, ni waeth a gydnabyddir hyn yn 'brif' angen neu angen 'eilaidd'.

- Daeth 68% o atgyfeiriadau i wasanaethau o’r tu allan i’r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl i blentyn ddechrau addysg statudol. O’r rhain, cafodd 41% eu cysylltu gan AYB o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Ni waeth sut y gwnaethpwyd yr atgyfeiriad, cynigwyd ymweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu’n rhithiol) i 32% o deuluoedd o fewn 10 diwrnod gwaith o’r atgyfeiriad.

# RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru

**Faint o blant byddar sydd?**

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu[4].

Wrth roi ffigyrau am nifer y plant byddar a oedd yn byw yn yr ardal, gofynnwyd i wasanaethau yn gyntaf i roi ffigur cyffredinol ac wedyn am ddadansoddiad yn ôl lefel byddardod, oedran, a lleoliad addysgol. Nid oedd rhai gwasanaethau bob amser yn darparu'r data hwn yn gyson; weithiau rhoddodd rhai gwasanaethau ffigyrau wedi'u dadansoddi lle'r oedd y swm yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r un a rhoddwyd rhywle arall yn yr arolwg.

Felly nid yw'n syml i ddod o hyd i ateb clir i'r cwestiwn am faint o blant byddar sydd. Am yr adroddiad hwn, rydym wedi penderfynu defnyddio'r ffigur uchaf a rhoddwyd, o naill ai'r cyfanswm terfynol neu gyfanswm y ffigyrau wedi'u dadansoddi. Gwnawn hyn oherwydd rydym am sicrhau ein bod ni wedi cofnodi cymaint o blant byddar â phosib. Lle rydym wedi gwneud hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu".

Ymatebodd 14 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn. Yn seiliedig ar ymatebion hyn, **cyfanswm y plant byddar yng Nghymru wedi'i addasu yw 2,260**. Mae'r ffigur hwn wedi disgyn ychydig o 2,329 yn 2022 pan ymatebodd pob gwasanaeth.

Darperir ffigyrau heb eu haddasu yn y tabl dilynol.

*Tabl 1: Ffigyrau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar*

| | **Cyfanswm a gynhyrchwyd** |
|---|---|
| Cyfanswm wedi'i addasu | 2,260 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn gyffredinol ac wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran[5], lefel byddardod a lleoliad addysgol[6] | 2,255 |

Gan ddefnyddio'r cyfansymiau wedi'u haddasu, y nifer lleiaf o blant a gofnodwyd gan wasanaeth oedd 39 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Y nifer fwyaf a gofnodwyd oedd 455 o blant byddar (roedd hwn mewn gwasanaeth sy'n gweithio dros bum ardal awdurdod lleol). Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob gwasanaeth oedd 161.

Mae'r tabl canlynol yn cymharu cyfanswm y plant byddar sy'n byw yng Nghymru gyda ffigyrau o flynyddoedd blaenorol. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau gydag adroddiadau cynharach oherwydd ansawdd yr ymatebion a chyfraddau ymateb rhwng yr arolygon.

[4] Gofynnwyd i wasanaethau i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc o dan 20 oed sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, gan ddefnyddio disgryfyddion BSA/BATOD gan eithrio plant a phobl ifanc byddar â byddardod dros dro Gofynnwyd i wasanaethau i gynnwys pob plentyn a pherson ifanc byddar, p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth neu beidio, ac i gynnwys plant a phobl ifanc byddar sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'w hardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn yr ardal honno. O dan ddiffiniad 'byddardod parhaol' a ddefnyddiwyd yn yr arolwg, gofynnwyd bod plant sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi yn cael eu cynnwys. Mae ein diffiniad hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol. Fel arall, gofynnwyd i wasanaethau i beidio â chynnwys plant a phobl ifanc â byddardod dros dro, gan gynnwys y plant hynny â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.
[5] 2,255 oedd swm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau, swm y ffigyrau wedi'u dadansoddi oedd 2,254.
[6] 2,255 oedd swm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau, swm y ffigyrau wedi'u dadansoddi ar ôl i gyfansymiau o <5 gael eu haddasu a ffigurau wedi'u diystyru oedd 2,240.

*Tabl 2: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| | Nifer y plant byddar a gofnodwyd |
|---|---|
| CRIDE 2023 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,260 |
| CRIDE 2022 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,329 |
| CRIDE 2021 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,324 |
| CRIDE 2020* | 1,384 |
| CRIDE 2019 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,486 |
| CRIDE 2018 | 2,625 |
| CRIDE 2017 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,642 |
| CRIDE 2016 | 2,374 |
| CRIDE 2015 (cyfanswm wedi'i addasu) | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,904 |
| CRIDE 2012 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,743 |
| CRIDE 2011 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,755 |

** Yn 2020, roedd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.*

**Problemau neu fylchau yn y data**

Nododd naw gwasanaeth (64%) fod yna fylchau neu broblemau hysbys yn y data a ddarparasant am nifer y plant a phobl ifanc byddar. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth yn unig (43% o bob gwasanaeth)
- gwasanaethau ddim yn meddu ar ffigurau am blant sydd wedi gadael yr ysgol (36%)
- gwasanaethau ddim yn gallu rhannu ffigurau am blant â byddardod parhaol neu dros dro (14%)
- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n gwisgo cymhorthion clyw yn unig (7%).

Mae ehangder y problemau a bylchau hyn yn ein hatgoffa bod angen defnyddio'r ffigyrau a grëwyd gan arolwg CRIDE â gofal. Mae'r data yn yr adroddiad hwn ond cystal â'r data a ddarperir inni gan awdurdodau lleol, ac mae'r adran uchod yn codi cwestiynau am sut gallwn wella'r data a gesglir am blant byddar. Ar yr un pryd, credwn fod y data a gynhyrchir drwy adroddiadau CRIDE yn parhau i fod ymhlith y ffynonellau data gorau sydd ar gael.

**Beth mae'r arolwg yn ei ddweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru**

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel byddardod, a lleoliad addysg.

*Tabl 3: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl oedran*

| Grŵp oedran | Nifer y plant byddar a adroddwyd | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Blynyddoedd cynnar/cyn oed ysgol | 207 | 9% |
| Oed cynradd | 892 | 40% |
| Oed uwchradd | 933 | 41% |
| Ôl-16 ac o dan 20 oed | 222 | 10% |
| Cyfanswm | 2,254[7] | |

[7] 2,254 oedd swm y ffigyrau wedi'u dadansoddi a roddwyd gan wasanaethau. Swm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 2,255

Ers 2021 mae cyfran y plant byddar yn y categorïau oedran gwahanol wedi newid fel a ganlyn:

- blynyddoedd cynnar/oed cyn ysgol – wedi cynyddu dau bwynt canran
- oed cynradd – wedi disgyn dau bwynt canran
- oed uwchradd – dim newid
- categori ôl-16 – wedi cynyddu un pwynt canran.

Er mwyn cymharu, edrychwyd ar ffigyrau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran[8] i weld a oedd unrhyw wahaniaethau yng nghyfran y plant mewn gwahanol grwpiau oedran. Dylid nodi ni ofynnodd arolwg CRIDE am oedran penodol plant ond yn hytrach os oeddynt o "oed cynradd", ayb felly dylid cymryd y data isod fel bras amcan yn unig. Hefyd, gwyddys bod nifer yr achosion o fyddardod yn amrywio yn ôl oedran, gan adlewyrchu'r ffaith bod nifer o blant byddar yn dod yn fyddar wrth iddynt dyfu'n hŷn. Felly, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau isod yn uniongyrchol.

*Tabl 4: Cyfran y plant a phobl ifanc yn ôl oedran*

| **ONS (data canol 2021)** | | | **CRIDE 2023** | |
|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Canran yr holl blant** | | **Categori** | **Canran o'r cyfanswm** |
| Plant 0 i 4 oed | 22% | | Cyn ysgol | 9% |
| Plant 5 i 11 oed | 36% | | Cynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) | 40% |
| Plant 12 i 16 oed | 26% | | Uwchradd (blwyddyn 7 i 11) | 41% |
| Pobl ifanc 17 i 19 oed | 15% | | Ôl-16 | 10% |

*Tabl 5: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lefel eu byddardod*

| **Lefel byddardod** | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** | **Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys)** |
|---|---|---|
| Unochrol | 491 | 22% |
| Mân | 561 | 25% |
| Cymedrol | 735 | 33% |
| Difrifol | 206 | 9% |
| Llwyr | 246 | 11% |
| Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys') | 2,239 | |
| Nid yw'n hysbys | 16 | |
| Cyfanswm (gan gynnwys 'nid yw'n hysbys') | 2,255 | |

Ers arolwg 2021, mae cyfran y plant a phobl ifanc:

- gyda byddardod unochrol wedi cynyddu pedwar pwynt canran
- gyda byddardod mân wedi cynyddu un pwynt canran
- gyda byddardod cymedrol wedi disgyn dau bwynt canran
- gyda byddardod difrifol wedi disgyn pedwar pwynt caran
- gyda byddardod llwyr heb newid.

[8] https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland

Mae o leiaf 36 plentyn byddar yng Nghymru sydd ag anhwylder ar y sbectrwm niwropatheg (ANSD), 2% o holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu)[9]. Mae hyn yn gynnydd ers 2021 o 1%.

Adnabyddir ANSD amlaf mewn babanod yn ystod sgrin clyw babanod gyffredinol, a gyflwynwyd yng Nghymru yn 2004. Ond, mae'r protocolau sgrinio a ddefnyddir ar gyfer poblogaeth 'babi iach' yn wahanol i'r rheini a ddefnyddir ar gyfer babanod sydd wedi treulio amser mewn unedau gofal dwys newyddenedigol (NICU), sy'n golygu bod babanod yn NICU gydag ANSD yn debygol o gael eu hadnabod yn gynnar ond nid yw babanod 'iach'. Mae hyn oherwydd bod babanod NICU mewn llawer mwy o berygl o ANSD a mathau eraill o fyddardod o gymharu â babanod iach, felly cynllunnir y prawf sgrinio i adnabod y babanod hyn. Ond mae hyn yn golygu nad yw ANSD yn debygol o gael ei adnabod mewn babanod iach nes y byddant yn hŷn, os o gwbl.

Mae'r ffigurau a ddarperir trwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod yn awgrymu bod tua 1 o bob 10 plentyn sydd â byddardod cynhenid yn dioddef o ANSD. Ond gall y ffigur gywir fod yn uwch, gan ei fod yn debygol bydd yr ANSD ddim yn cael ei adnabod mewn babanod iach sy'n pasio'r sgrin clyw babanod.

Mae ffigyrau CRIDE yn dangos bod ANSD yn cael ei dangofnodi gan wasanaethau addysg. Gall hyn fod oherwydd diffyg adnabyddiaeth o ANSD mewn plant byddar hŷn ar eu llwythi achos a'r 'babanod iach' hynny a basiodd y sgrinio ac a gafodd eu canfod yn ddiweddarach, yn ogystal â'r rheini sydd â byddardod caffaeledig/cynyddol nad ydynt wedi cael eu profi am ANSD.

[9] Nododd dau wasanaeth fod dim plant byddar ag ANSD yn byw yn yr ardal.

*Tabl 6: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lleoliad addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol** | | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 77 | 3% |
| | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 106 | 5% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 14 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 1,596 | 71% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | 14 | 1% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd[10] | 168 | 8% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 187 | 8% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 63 | 3% |
| **Y tu allan i'r awdurdod lleol** | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | <5 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth | 10 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | <5 | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | <5 | 0% |
| | Ysgolion arbennig i ddisgyblion byddar (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | <5 | 0% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | <5 | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | <5 | 0% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | <5 | 0% |
| | Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion) | 5 | 0% |
| **Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys')** | | 2,240*[11] | |
| **Nid yw'n hysbys** | | <5 | |
| **Cyfanswm (gan gynnwys 'nid yw'n hysbys')** | | 2,260[12] | |

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r un wybodaeth fel yr uchod ond heb rannu'r ffigurau yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol, a hefyd yn dangos canrannau cryno ar gyfer plant byddar oedran ysgol yn unig.

[10] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd â darpariaeth adnoddau, canolfan neu uned arbenigol sydd yn benodol ar gyfer plant byddar, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol. Nododd un gwasanaeth heb ddarpariaethau adnoddau yn yr ardal blant yn y categori hwn a oedd yn cael mynediad at ganolfannau adnoddau arbenigol cysylltiedig, ac ysgolion prif ffrwd.

[11] 2,240 yw swm y ffigurau wedi'u dadansoddi a rhoddwyd gan wasanaethau ar ôl addasu ffigurau gyda chyfanswm categori o lai na 5. Swm y cyfansymiau a rhoddwyd gan wasanaethau oedd 2,255.

[12] 2,260 yw swm y ffigurau wedi'u dadansoddi lle na ddiystyrwyd ffigurau gyda chyfanswm categori o lai na 5. 2,240 yw swm y ffigurau wedi'u dadansoddi ar ôl diystyru ffigurau mewn categorïau gyda chyfanswm categori o lai na 5.

*Tabl 7: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol*

| Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth a ydynt o fewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol) | Nifer y plant byddar | Canran o'r cyfanswm | Canran o gyfanswm y plant oedran ysgol (h.y. ac eithrio plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl-16) |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 77 | 3% | |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 106* | 5% | |
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 14 | 1% | 1% |
| Darpariaeth prif ffrwd (gan gynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol) | 1,620* | 72% | 81% |
| Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau | 168* | 8% | 8% |
| Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar | <5 | 0% | 0% |
| Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 187* | 8% | 9% |
| Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio chweched dosbarth mewn ysgolion) | 63* | 3% | |
| Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion, NEET, anhysbys) | 5 | 0% | |
| Cyfanswm | 2,240* | | |
| Cyfanswm (ac eithrio plant cyn-ysgol a darpariaeth ôl-16 arall ac 'arall') | 1,989* | | |

O gymharu â ffigurau am blant a phobl ifanc byddar oed ysgol o 2022, mae cyfran y plant a phobl ifanc:

- mewn darpariaeth brif ffrwd (can gynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol) wedi aros yn 81%
- mewn darpariaethau adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd wedi gostwng un y cant o 9% i 8%. Roedd hyn yn 8% yn 2021
- mewn ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol wedi gostwng o 10% i 9%
- wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oed ysgol ac yn cael eu haddysg gartref wedi aros yn 1%.

*Tabl 8: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)*

| Math o ddarpariaeth addysgol | Nifer y plant byddar | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol cartref | 2,225 | 100% |
| Y tu allan i'r awdurdod lleol cartref | 10 | 0% |
| Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys' ac 'arall') | 2,235 | |

Ers 2022, mae nifer a chyfran y plant byddar y tu allan i'r awdurdod lleol cartref wedi gostwng o 43 o blant a phobl ifanc a 2% yn y drefn honno.

**Amlder anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Adroddodd gwasanaethau fod nifer y plant sydd ag angen dysgu ychwanegol[13] yw 540[14]. Mae hyn yn 24% o gyfanswm y plant byddar, wedi'i addasu. Mae hyn yn gynnydd o 20% yn 2021.

[13] Diffinnir fel unrhyw angen dysgu ychwanegol heblaw byddardod, ni waeth a yw'r angen dysgu ychwanegol yn cael ei adnabod yn 'brif' angen neu'n angen 'eilaidd'.

[14] Ni ymatebodd 1 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn ac adroddodd gwasanaeth arall fod dim plant byddar ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Plant byddar â mewnblaniadau yn y cochlear a dyfeisiau clyw drwy asgwrn**

Adroddwyd bod gan 209 o blant (9% o gyfanswm plant byddar, wedi'i addasu) o leiaf un mewnblaniad yn y cochlear. Mae hyn yn gynnydd o 160 o blant (7%) yn 2021.

Mae plant sydd â cholled clyw difrifol i lwyr yn gymwys am fewnblaniadau yn y cochlear. Gwelwyd yn gynharach mewn tabl 5 bod yna 452 o blant gyda cholled clyw difrifol neu lwyr. Er gall hyn fod yn fras amcan yn unig, gellir amcangyfrif bod gan 46% o blant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr o leiaf un mewnblaniad yn y cochlear. Pe bae rhywun yn cymryd bod bron bob plentyn gyda mewnblaniadau yn y cochlear yw'r rheini gyda cholled clyw llwyr, byddai'r canran hwn yn codi i 85%.

Mae data a ddarparwyd gan dimau mewnblaniadau yn y cochlear De Cymru a Gogledd Cymru yn dangos bod 265 o blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi gan eu gwasanaethau.[15] Mae ffigur CRIDE o 209 o blant gydag o leiaf un mewnblaniad yn y cochlear yn cynrychioli 79% o'r 265 a nodwyd gan raglenni mewnblaniadau yn y cochlear.

Adroddodd gwasanaethau hefyd fod 157 o blant (7% o'r cyfanswm o blant byddar, wedi'i addasu) â chymorth drwy asgwrn. Mae'r gyfran wedi cynyddu o 3% yn 2021.

**Ieithoedd ychwanegol**

Roedd gwasanaethau yn gwybod am 113 o blant (5% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar a gofnodwyd)[16] yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol yn y cartref. Mae hyn yn ostyngiad ers 2021 pan fu 7% yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol.

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn i ddweud wrthym am yr ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall. Mae'n rhaid defnyddio gofal wrth edrych ar ganlyniadau'r cwestiwn hwn. Mae hyn oherwydd roedd y 13 gwasanaeth[17] a atebodd y cwestiwn hwn yn adnabod 1,712 o blant. Mae hyn yn llai na'r ffigur o 2,260 a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler tabl 1).

*Tabl 9: Nifer y plant sydd â byddardod difrifol/llwyr, yn ôl pa ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall*

| Iaith | Cyfanswm | Canran o ymatebion (lle bo'n hysbys) |
|---|---|---|
| Saesneg llafar | 1,172 | 70% |
| Cymraeg llafar | 297 | 18% |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | 44 | 3% |
| Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddion | 110 | 7% |
| Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion | <5 | 0% |
| Cyfuniad arall | 59 | 4% |
| Cyfanswm sy'n hysbys | 1,682* | |
| Nid yw'n hysbys | 30 | |
| Cyfanswm gan gynnwys nid yw'n hysbys | 1,712*[18] | |

[15] Darparwyd y data hwn gan raglenni mewnblaniadau yn y cochlear De Orllewin a Gogledd Orllewin Cymru i blant o 0 i 19 oed ac wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu yng Nghymru, o Ionawr 2023 ymlaen. Yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn cymorth ym Manceinion.
[16] Adroddodd dau o'r gwasanaethau hyn fod dim plant byddar yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol gartref.
[17] Adroddodd un gwasanaeth bod dim plant. Hefyd, ni ddarparodd un gwasanaeth wybodaeth i'r cwestiwn hwn.
[18] 1,712 oedd swm y ffigurau wedi'u dadansoddi a ddarparwyd gan wasanaethau. Swm y cyfansymiau oedd 1,715.

O gymharu â data o arolwg 2021 pan ofynnwyd y cwestiwn hwn diwethaf mae cyfrannau’r plant a phobl ifanc sy’n defnyddio:

- Saesneg llafar wedi disgyn o 75% i 70%
- Cymraeg llafar – cynnydd o 9% i 18%
- BSL – cynnydd o 2% i 3%
- Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddion – cynnydd o 6% to 7%
- Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion wedi aros yn <5 neu 0%
- cyfuniad arall – gostyngiad o 8% i 4%.

Ymatebodd llai o wasanaethau’r cwestiwn hwn nag yn 2011 a allai fod wedi cael effaith ar rai o’r newidiadau uchod.

Mae’n rhaid pwysleisio efallai na fyddai defnydd iaith arwyddion/llafar mewn addysg yr un peth bob tro â defnydd iaith arwyddion/llafar o fewn y cartref neu ddymuniadau’r plentyn ei hunan.

**Plant byddar sy’n newydd i’r wlad**

Roedd 12 plentyn byddar a wyddys eu bod ‘newydd gyrraedd’ (wedi cyrraedd eu gwasanaeth o’r tu allan i’r DU o fewn y flwyddyn ddiwethaf) wedi’u nodi gan bedwar gwasanaeth. Mae hyn yn 1% o’r cyfanswm y plant byddar, wedi’i addasu. Nododd 10 gwasanaeth fod dim plant byddar a wyddys eu bod newydd gyrraedd. Mae hyn wedi cynyddu ychydig ers 2021 pan oedd y ffigurau yn 5 a llai na 1% (0.2%) yn y drefn honno.

**Nifer y plant byddar ar lwythi achos gwasanaethau**

Defnyddir llwyth achos i olygu plant sy’n derbyn rhyw fath o gymorth **o leiaf unwaith y flwyddyn**. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol, athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Gofynnwyd i wasanaethau gynnwys plant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth ond nad ydynt yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â’r gwasanaeth hynny. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant â byddardod dros dro yn eu hatebion i’r cwestiwn hwn hefyd os oeddent ar lwyth achos y gwasanaeth.

Mae ymatebion gan 14 gwasanaeth yn arwyddo bod o leiaf 3,224 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwyth achos oedd 38 a'r uchaf oedd 1,074. Y cyfartaledd oedd 230 o blant.

Mae diffiniad ‘llwyth achos’ wedi newid o fewn arolwg CRIDE dros y blynyddoedd. Mae’r tabl dilynol yn dangos ffigurau llwythi achos dros y blynyddoedd, ochr yn ochr â’r diffiniad a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hynny. Noder hefyd bod yn 2016, newidiwyd cwestiwn yr arolwg i gynnwys plant â byddardod dros dro yn yr ymateb i’r cwestiwn hwn; yn flaenorol gofynnwyd i wasanaethau cynnwys plant â byddardod parhaol yn unig.

*Tabl 10: Nifer y plant byddar ar lwythi achos a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| Blwyddyn | Nifer y plant ar y llwyth achos | Diffiniad llwyth achos | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 2023 | 3,224 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 14[19] |
| 2022 | 3,178 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2021 | 3,430 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2020 | 1,639[20] | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 11 |
| 2019 | 3,265 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 14 |
| 2018 | 4,258 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2017 | 3,968 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2016 | 3,722 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2015 | 3,022 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2014 | 2,345 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2013 | 2,530 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 17[21] |
| 2012 | 2,905 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 21 |
| 2011 | 2,638 | Ni ddarparwyd diffiniad clir | 16 |

Gofynnwyd i wasanaethau rannu nifer y plant ar eu llwythi achos a oedd â byddardod dargludol dros dro. Adroddodd 13 gwasanaeth bod 1,223 o blant.[22]

Os oes 2,260[23] o blant â byddardod parhaol yn byw yng Nghymru a 2,001 ohonynt ar lwythi achos gwasanaethau gyda byddardod parhaol, mae yna o leiaf 259 o blant byddar (11% o'r cyfanswm wedi'i addasu) sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod 11% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai bod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth llai nag unwaith y flwyddyn gan wasanaeth, neu o rywle arall, er enghraifft, gan ddarpariaethau adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth.

**Cymorth ôl-19**

Dywedodd tri gwasanaeth (23%) eu bod yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar dros 19 mlwydd oed, a deg gwasanaeth (77%) yn dweud eu bod nhw ddim[24]. Roedd wyth person ifanc dros 19 mlwydd oed ar lwythi achos gwasanaethau lle darparwyd cymorth. Lle dywedodd un gwasanaeth eu bod nhw ddim yn darparu cymorth, nodwyd eu bod nhw'n gallu darparu cyngor i bobl ifanc byddar dros 19 mlwydd oed ar gais.

Mae cyfran y gwasanaethau sy'n darparu cymorth i bobl ifanc byddar dros 19 mlwydd oed wedi gostwng o 40% yn 2022.

**Sut mae ffigurau CRIDE 2022 yn cymharu â ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion?**

Oherwydd y gwahaniaethau yn y dull o gasglu data a diffiniadau a ddefnyddir, awgrymwn fod y ffigurau dilynol yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer dadansoddiad a thrafodaeth bellach, yn hytrach nag i gyrraedd casgliadau pendant.

[19] Mae'r newid yn nifer y gwasanaethau o 2022 yn adlewyrchu bod un gwasanaethu wedi ymuno â gwasanaeth consortiwm
[20] Yn 2020, roedd 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.
[21] Mae'r newid yn nifer y gwasanaethau yn adlewyrchu bod rhai gwasanaethau wedi ymgyfuno ar ôl 2013.
[22] Hefyd, ni ddarparodd un gwasanaeth ffigurau i'r cwestiwn hwn a nodwyd bod hyn yn anhysbys.
[23] Cyfanswm wedi'i addasu
[24] Ni ddarparodd un gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.

Mae arolwg CRIDE 2023 yn adrodd fod yna 2,260 o blant byddar yng Nghymru[25]. Ond, mae ffigurau Cyfrif Ysgolion Llywodraeth Cymru[26] yn dynodi bod yn 1,788 o ddisgyblion[27] gyda nam ar y clyw, a 276 o ddisgyblion â nam aml-synnwyr. Dylid nodi nad yw data Llywodraeth Cymru bellach yn dangos a yw'r nam ar y clyw yn brif angen neu'n angen eilaidd.

Cydnabyddwn fod ffigurau Cyfrif Ysgolion yn bennaf yn cynnwys disgyblion o 5 i 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd wedi'u cynnal ac ysgolion annibynnol, a bod ffigurau CRIDE uchod ar gyfer plant o 0 i 19 oed. Mae ffigur Cyfrifiad ysgolion o 1,788 o ddisgyblion gyda nam ar y clyw yn cynrychioli 98% o'r 1,825 o'r plant a phobl ifanc oed ysgol gynradd ac oed ysgol uwchradd sydd â byddardod parhaol a nodwyd gan wasanaethau i CRIDE.

[25] Cyfanswm wedi'i addasu.

[26] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-ionawr-2023-html

[27] Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru nawr yn talgrynnu rhifau i'r pump agosaf. Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan bod dychweliadau Cyfrifiad Ysgolion yn cael eu hawdurdodi gan brifathrawon ysgolion a'u dilysu gan Awdurdodau lleol. Fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Cymru, dychwelir y data fel arfer i awdurdodau lleol i'w ddilysu'n derfynol. Fel arfer, ni fydd niferoedd cyffredinol y disgyblion ac athrawon yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r newid mwyaf tebygol yn nodweddion y disgyblion eu hunain e.e. hawl i brydau ysgol am ddim. Felly dylai defnyddwyr fod yn fwy gofalus wrth gymharu data ar nodweddion disgyblion a staff dros amser, yn enwedig gyda charfannau bach.

## RHAN 2: Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar a staff arbenigol arall

Yn arolygon blaenorol, defnyddiwyd y derminoleg 'Athrawon Pobl Fyddar'. Ar gyfer arolwg 2023 ac o hyn ymlaen, defnyddiwn y derminoleg 'Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar (AYB)' yn ei lle. Ond, nid yw diffiniad y rôl wedi newid a dylid parhau i gael ei ddeall i fod yn rôl dysgu arbenigol, wedi'i wneud gan rywun sydd â'r cymhwyster gorfodol er mwyn gallu dysgu plant byddar neu sydd o dan hyfforddiant i ennill y cymhwyster hwn.

Gofynnwyd am nifer yr AYB sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys y rheini mewn rôl beripatetig, yn gweithio mewn darpariaeth adnoddau[28] a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar. Cawsom fod:

- yn gyffredinol, mae yna o leiaf 64.3 athro CALl sy'n gweithio fel AYB yng Nghymru.
- llenwir 93% o'r swyddi hyn gan AYB hollol gymwysedig gyda'r swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol (7%).
- ar adeg cwblhau'r arolwg, adroddwyd bod yna o leiaf 1.6 swydd wag CALl
- os ychwanegir y swyddi gwag at gyfanswm yr AYB mewn cyflogaeth, byddai hyn yn arwyddo bod o leiaf 65.9 swydd CALl AYB, gyda 2% ohonynt yn wag.

Mae'r tabl dilynol yn darparu dadansoddiad yn ôl math y lleoliad.

[28] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd â darpariaeth adnoddau, canolfan neu uned, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol.

*Tabl 11: Nifer y swyddi AYB yn gyffredinol*[29]

| | **Yn gweithio'n bennaf fel AYB peripatetig (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol** | **Swyddi AYB yn gyffredinol (cyfanswm a chanran)** |
|---|---|---|---|---|---|
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol | 33.2 (93%) | 22.5 (92%) | 2 (100%) | 2 (100%) | 59.7 (93%) |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 2.6 (7%) | 2 (8%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 4.6 (7%) |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Cyfanswm – mewn cyflogaeth | 35.8 (100%) | 24.5 (100%) | 2 (100%) | 2 (100%) | 64.3 (100%) |
| Swyddi gwag | 0.6 (2%) | 1 (4%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1.6 (2%) |
| Cyfanswm – swyddi | 36.4 (100%) | 25.5 (100%) | 2 (100%) | 2 (100%) | 65.9 (100%) |

Mae’r tabl canlynol yn crynhoi’r uchod gan ddangos nifer yr AYB mewn cyflogaeth yn unig yn ôl eu rôl yn unig.

*Tabl 12: Nifer yr AYB mewn cyflogaeth yn gyffredinol yn ôl rôl*

| | **Cyfanswm yr AYB mewn swydd** | **Canran** |
|---|---|---|
| Yn gweithio'n bennaf fel AYB peripatetig | 35.8 | 56% |
| Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau | 24.5 | 38% |
| Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 2 | 3% |
| Yn gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 2 | 3% |
| Cyfanswm o’r ffigurau a rhoddwyd | 64.3 | 100% |

[29] Mae canrannau’r AYB gyda'r cymhwyster gorfodol, Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd ac Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant allan o’r cyfanswm sydd mewn swydd. Mae canrannau ar gyfer swyddi gwag allan o bob swydd.

Casglwyd ffigurau i AYB mewn rhaglenni mewnblaniadau yn y cochlear ledled Cymru mewn arolwg ar wahân. Derbyniwyd ymateb gan Raglen Mewnblaniad Cochleaidd De Cymru. Adroddwyd bod o leiaf 1.6 AYB hollol gymwysedig CALl mewn swydd, a dim swyddi gwag.

**Newidiadau i nifer yr AYB**

Mae'r tabl dilynol yn edrych ar newidiadau yn nifer yr AYB cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Fel yr amlinellir yn gynharach, wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, gall anomaleddau ymddangos weithiau yn yr atebion. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i unrhyw anghysondebau sy'n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd; ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o'r fath.

*Tabl 13: Newidiadau yn nifer yr AYB o flwyddyn i flwyddyn[30]*

| | **AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth** | **AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu o dan hyfforddiant** | **Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel AYB mewn cyflogaeth** | **Nifer y swyddi gwag** | **Nifer y swyddi AYB (gan gynnwys swyddi gwag)** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2023 | 59.7 | 64.3 | 64.3 | 1.6 | 65.9 |
| 2022 | 57.8 | 62.8 | 62.8 | 2.4 | 65.2 |
| 2021 | 54.4 | 58.8 | 60.0 | 2.4 | 62.4 |
| 2019 | 57.0 | 66.0 | 66.0 | 0 | 66.0 |
| 2018 | 56.425 | 61.825 | 61.825 | 1 | 62.825 |
| 2017 | 57.63 | 60.33 | 60.73 | 3.9 | 64.63 |
| 2016 | 65.45 | 69.25 | 69.25 | 1 | 70.25 |
| 2015 | 69.86 | 73.66 | 74.26 | 0.8 | 75.06 |
| 2014 | 67 | 69.2 | 70.2 | 0.6 | 70.8 |
| 2013 | 66.5 | 71.5 | 71.5 | 3 | 74.5 |
| 2012 | 91.75 | 100.55 | 100.55 | 0 | 100.55 |
| 2011 | 71.95 | 73.95 | 75.95 | 0 | 75.95 |

*(Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg)*

*Tabl 14: Newid canrannol yn nifer yr AYB*

| | **Newid canrannol dros y 12 mlynedd diwethaf (rhwng 2011 a 2023)** | **Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2022 a 2023)** |
|---|---|---|
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | -17% | 3% |
| AYB gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth **neu** o dan hyfforddiant | -13% | 2% |
| Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel AYB mewn cyflogaeth | -15% | 2% |
| Nifer y swyddi AYB (gan gynnwys swyddi gwag) | -13% | 1% |

[30] Yn 2017, dechreuwyd gofyn am AYB mewn colegau neu ysgolion arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Felly nid yw'n bosib gwneud cymariaethau uniongyrchol gyda ffigurau cyn/ar ôl hyn. Ond, mae'n werth nodi nad yw cynnwys y ffigurau hyn wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer yr AYB.

Yn nhermau unrhyw newidiadau i AYB mewn swydd mewn rolau penodol:

- yn y bôn mae’r cyfanswm o 35.8 AYB peripatetig CALl heb newid (lawr 0.1 CALl o 35.9 yn 2022, neu ostyngiad o 0.3%)
- mae’r cyfanswm o 24.5 AYB CALl mewn darpariaethau adnoddau wedi gostwng o 25.9 yn 2022. Mae hyn yn gymaint â gostyngiad o 5%. Ers 2011, pan oedd 34 AYB mewn swydd mewn darpariaethau adnoddau, gwelsom ostyngiad o 28%
- adroddwyd bod 2 AYB CALl gyda'r cymhwyster gorfodol yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Mae hyn yn gynnydd ers 2022 pan adroddwyd bod 1 AYB CALl yn gweithio yn y modd hwn
- adroddwyd bod 2 AYB CALl gyda'r cymhwyster gorfodol yn gweithio’n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Yn 2022, adroddwyd bod dim AYB yn gweithio yn y modd hwn.

Ar gyfer y 12 gwasanaeth lle’r oedd yn bosib cymharu’r ffigurau, cawsom fod 33% o wasanaethau wedi gweld cynnydd yn nifer yr AYB mewn cyflogaeth rhwng 2022 a 2023, 58% o wasanaethau heb weld unrhyw newid a 8% o wasanaethau wedi gweld gostyngiad.

Yn nhermau unrhyw anawsterau i recriwtio AYB neu ddigon o weithwyr llanw dros y 12 mis diwethaf:

- cofnododd un gwasanaeth (7%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol
- cofnododd dau (14%) ddim anawsterau
- Nododd 11 gwasanaeth (79%) fod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt.

- cofnododd dau wasanaeth (14%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw
- ni chofnododd unrhyw wasanaeth fod dim anawsterau
- nododd 12 gwasanaeth (86%) fod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt.

Gan gyfuno’r ffigyrau, cofnododd tri gwasanaeth (20%) anawsterau wrth recriwtio i naill ai swyddi parhaol neu lanw. Roedd sylwadau gan wasanaethau ynghylch hyn yn cynnwys:

- diffyg athrawon digon profiadol yn gwneud cais am swydd beripatetig rhan amser
- gwasanaeth yn methu trefnu AYB cymwysedig llanw, gwasanaeth yn aildrefnu’r amserlen i sicrhau bod digon o staff
- gwasanaeth yn cyflogi athro a oedd yn dechrau ail flwyddyn y cymhwyster AYB gorfodol.

**Cymwysterau ychwanegol sydd gan AYB**

Cawsom fod:

- 0.8 AYB CALl, sy’n gweithio mewn swydd beripatetig, yn meddu ar gymhwyster arbenigol ôl-raddedig mewn cymorth blynyddoedd cynnar i blant byddar. Mae hyn yn 1% o’r holl AYB mewn cyflogaeth
- 2 AYB CALl, sy’n gweithio mewn swydd beripatetig, yn meddu ar gymhwyster arbenigol ychwanegol fel awdiolegydd addysgol. Mae hyn yn 3% o’r holl AYB mewn cyflogaeth
- 22.6 AYB CALl yn meddu ar gymhwyster lefel 3 (neu gyfwerth) neu uwch mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Mae hyn yn 35% o holl AYB mewn cyflogaeth. O’r 22.6 AYB CALl hyn, roedd 56% yn gweithio mewn rôl beripatetig, 40% yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau a 4% yn gweithio’n hyblyg rhwng gwahanol rolau/lleoliadau.

**Proffil oedran AYB peripatetig**

Gofynnwyd i wasanaethau am broffil oedran AYB. Mae hyn mewn ymateb i bryderon parhaus bod nifer yr AYB newydd sy'n cael eu recriwtio yn sylweddol is na nifer yr AYB sydd yn ymddeol o'r proffesiwn.

Mae'r tabl canlynol yn dangos bod 36% o AYB peripatetig dros 50 oed ac felly, yn debygol o ymddeol o fewn y 10 i 15 blwyddyn nesaf. Yn 2021, roedd y ffigur hwn yn 34%

*Tabl 15: Proffil oedran AYB peripatetig*

| | Nifer yr athrawon peripatetig (CALl) | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| 49 oed neu'n iau | 23.6 | 64% |
| Rhwng 50 a 59 oed | 11.2 | 31% |
| Rhwng 60 a 64 oed | 1.8 | 5% |
| 65 oed neu'n hŷn | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 36.6[31] | |

**Llwythi achos AYB peripatetig**

Mae'r adran hon yn edrych ar lwythi achos damcaniaethol pob un o'r AYB[32] (peripatetig) gwadd drwy edrych ar nifer y plant byddar sy'n byw mewn ardal ac nad ydynt yn barod mewn darpariaeth arbenigol (ni waeth a ydynt yn derbyn cymorth neu beidio). Mae yna ystod o farnau ar ddefnyddioldeb hyn a'r ffordd orau o gyfrifo'r gymhareb hon. Dylid ystyried:

- gall ardaloedd mawr neu wledig, o reidrwydd, gael mwy o AYB gwadd nag ardaloedd bach a threfol oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer amser teithio
- gall ardaloedd sydd ag uned neu ysgol arbenigol gael llai o AYB gwadd oherwydd aseswyd bod y plant byddar sydd â'r angen mwyaf mewn darpariaeth arbenigol yn barod
- gall ymddangos bod gwasanaethau sydd mewn sefyllfa well i allu cofnodi a chydnabod yn ddibynadwy nifer y plant byddar sydd yn eu hardal, gan gynnwys y rheini dros 16 oed, â llwythi achos trymach na gwasanaethau sydd wedi darparu ffigur am nifer y plant byddar maent yn 'gwybod' amdanynt yn unig
- nid yw'r llwyth achos damcaniaethol yn dweud wrthym am y canlyniadau a gyflawnwyd gan blant byddar yn yr ardal.

Yn nhermau syml ac er mwyn cysondeb ar draws pob rhan o Gymru, amcangyfrifir y llwythi damcaniaethol trwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol[33] gyda nifer yr AYB gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol.

Cawsom fod:

- gan bob AYB gwadd lwyth achos damcaniaethol o 55 o blant byddar, ar gyfartaledd

[31] Mae'r ffigur 36.6 yn wahanol i'r cyfanswm o 35.8 oherwydd darparodd rhai gwasanaethau ffigurau ar ystodau oedran AYB a oedd yn wahanol i'r ffigurau cyffredinol a darparwyd ar AYB mewn gwasanaethau peripatetig.

[32] Mae'r AYB sydd wedi'u cynnwys yn AYB naill ai sydd yn meddu ar y CG neu o dan hyfforddiant ar gyfer y CG, a adroddwyd eu bod yn gweithio yn bennaf mewn gwasanaeth peripatetig neu'n gweithio'n hyblyg fel AYB peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol.

33 Mae hyn yn cynnwys: "Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig – plant cyn-ysgol, Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol, Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref, Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth, Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (er enghraifft, Eton), Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir), Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth ysgol), NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig), Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion), Nid yw'n hysbys". Nid yw hyn yn cynnwys plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion.

- y llwyth achos uchaf oedd 243 mewn un ardal, lle'r oedd cyfran fawr o'r swyddi peripatetig yn wag ar adeg yr arolwg. Y llwyth achos uchaf nesaf oedd 77.

Mae'r llwyth achos damcaniaethol ar gyfartaledd wedi gostwng ers 2022 pan oedd gan bob AYB peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 59 plentyn byddar, ar gyfartaledd.

**Staff arbenigol eraill**

Cawsom fod 43.5 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am AYB, yn cael eu cyflogi gan wasanaethau, yn cefnogi plant byddar. Cofnodwyd 1 swydd wag CALl. Golyga hyn fod 44.5 swydd staff cymorth arbenigol, gyda 2% o'r rheini yn wag.

*Tabl 16: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl swydd*

| | **Nifer yn gweithio yn y swydd hon** | | **Swyddi gwag** | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | |
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 36.8 (97%) | 7 | 1 (3%) | 1 | 37.8 (100%) |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb | 3 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 3 (100%) |
| Dehonglwyr BSL/Saesneg wedi'u cofrestru gyda'r NRCPD | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Hyfforddwyr byddar/Modelau rôl byddar/Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb | 1 (0%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 (100%) |
| Awdiolegwyr addysgol/Awdiolegwyr mewn addysg nad ydynt hefyd yn meddu ar gymhwyster fel AYB | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Technegwyr, ayb | 1.5 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 1.5 (100%) |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0.2 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.2 (100%) |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd/Swyddogion cyswllt | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Gweithwyr cymdeithasol/Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Arall | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 (100%) |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 43.5 (98%) | | 1 (2%) | | 44.5 (100%) |

Roedd rolau eraill yn cynnwys cynorthwyydd dysgu lefel uwch. Adroddodd gwasanaethau ar dalu am gynorthwywyr dosbarth / gweithwyr cymorth cyfathrebu ond nid eu cyflogi yn uniongyrchol.

Mae nifer y swyddi wedi gostwng o 47.3 CALl yn 2022.

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau am gymwysterau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) unrhyw gynorthwywyr addysgu, ayb. a gweithwyr cymorth cyfathrebu ayb. (y rheini sydd wedi'u cynnwys yn nwy rhes gyntaf y tabl blaenorol).

*Tabl 17: Cymwysterau BSL cynorthwywyr addysgu, ayb. a gweithwyr cymorth cyfathrebu ayb.*

| | **Nifer y staff arbenigol eraill sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y gwasanaeth (CALl)** | **Canran** |
|---|---|---|
| Heb unrhyw gymhwyster ffurfiol mewn BSL ac nid ydynt yn defnyddio BSL fel iaith gyntaf | 6.5 | 16% |
| BSL Lefel 1 neu gyfwerth | 15.7 | 38% |
| BSL Lefel 2 neu gyfwerth | 9.6 | 23% |
| BSL Lefel 3 neu gyfwerth | 7.5 | 18% |
| BSL Lefel 4 neu gyfwerth | 0.5 | 1% |
| BSL Lefel 6 neu gyfwerth | 1 | 2% |
| Defnyddio BSL fel iaith gyntaf | 1 | 2% |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 41.8 | |

41.8 yw cyfanswm y ffigurau wedi'u dadansoddi a roddwyd gan wasanaethau. Swm y cyfansymiau oedd 31.1. Mae'r ddwy ffigur hyn yn wahanol i'r 39.8 o gynorthwywyr addysgu ayb. a'r gweithwyr cymorth cyfathrebu ayb mewn swydd a nodwyd yn y cwestiwn cynharach am staff arbenigol eraill wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaethau. Felly dylid defnyddio'r data hwn â gofal. Roedd sylwadau am staff arbenigol eraill yn cynnwys:

- dyddiad dechrau cwrs BSL Lefel 2 wedi'i ohirio oherwydd iechyd gwael deiliad BSL Lefel 1
- roedd pob aelod o staff a oedd wedi'u nodi yn parhau gyda'u hyfforddiant BSL
- nifer isel o blant yn defnyddio BSL fel eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn awgrymu bod plant byddar sy'n defnyddio BSL yn derbyn cefnogaeth gan staff sydd â chymhwyster BSL lefel 3 **o leiaf**. Mae'r ffigurau yn y tabl uchod yn arwyddo bod 23% o'r cynorthwywyr addysgu perthnasol ayb. yn meddu ar gymhwyster lefel 3 neu uwch neu'n defnyddio BSL fel iaith gyntaf.

## RHAN 3: Cymorth ôl-16

### Pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol

Nodwyd 12 gwasanaeth bod 118 o bobl ifanc byddar wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021/22. Credwn fod y ffigur hwn yn is na'r ffigur y byddem yn ei disgwyl i fod yn gadael ysgol. Er enghraifft, gwelwyd yn gynharach bod o leiaf 933 o blant byddar oedran ysgol uwchradd, sy'n awgrymu bod tua 186 ym mhob blwyddyn. Hefyd cawsom (fel y nodwyd gan 12 gwasanaeth) fod 59 o bobl ifanc[34] yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan AYB (50% o'r bobl ifanc byddar a gofnodwyd eu bod wedi gadael yr ysgol).

### Cyngor gyrfaol

Gofynnwyd a oedd AYB peripatetig mewn gwasanaethau yn darparu unrhyw gymorth a nodir isod mewn perthynas â chyngor gyrfaol a symud mewn i gyflogaeth.

*Tabl 18: Cymorth ar gyngor gyrfaol a symud i mewn i gyflogaeth*

| **Categori** | **Ie** (nifer a chanran y gwasanaethau) | **Na** (nifer a chanran y gwasanaethau) | **Ansicr** (nifer a chanran y gwasanaethau) | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn **ysgolion** ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar | 11 (92%) | 1 (8%) | 0 (0%) | 12[35] (100%) |
| Ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn **colegau** ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar | 7 (54%) | 5 (38%) | 1 (8%) | 13[36] (100%) |
| Darparu cyngor ar hygyrchedd lleoliadau gwaith sy'n cael eu hymgymryd gan bobl ifanc byddar | 6 (50%) | 4 (33%) | 2 (17%) | 12[37] (100%) |
| Darparu gwybodaeth i bobl ifanc byddar am y gefnogaeth sydd ar gael drwy gynllun Mynediad at Waith am gymorth cyflogaeth | 10 (77%) | 2 (15%) | 1 (8%) | 13[38] (100%) |
| Darparu gwybodaeth i bobl ifanc byddar am eu hawliau o dan y Ddeddf Gydraddoldeb i addasiadau rhesymol yn y gweithle | 10 (77%) | 2 (15%) | 1 (8%) | 13[39] (100%) |

O gymharu â ffigurau o adroddiad 2022 bu cynnydd yng nghyfrannau'r gwasanaethau:

- ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion (87% i 92%)
- ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn colegau (47% i 54%)
- darparu gwybodaeth am Fynediad at Waith (53% i 77%)
- darparu gwybodaeth ar y Ddeddf Gydraddoldeb ac addasiadau rhesymol (60% i 77%).

[34] Ni ddarparodd un gwasanaeth ffigur am nifer y bobl ifanc byddar a oedd wedi gadael yr ysgol ond yn darparu ffigur am nifer y bobl ifanc a oedd yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan AYB. Bydd cynnwys y ffigur hon yn golygu bod 77 o bobl ifanc yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan AYB.
[35] Ni ddarparodd dau wasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.
[36] Ni ddarparodd un gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.
[37] Ni ddarparodd dau wasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.
[38] Ni ddarparodd un gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.
[39] Ni ddarparodd un gwasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.

Bu gostyngiad yng nghyfrannau'r gwasanaethau sy'n darparu gwybodaeth ar hygyrchedd lleoliadau gwaith (53% to 50%).

# RHAN 4: Cymorth a ddarperir

Nododd pob un o'r 14 gwasanaeth (100%) fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn yr awdurdod lleol (yn hytrach na wedi'i leoli mewn ysgol neu gorff arall).

**Penaethiaid gwasanaethau**

Holwyd a oedd AYB peripatetig yn y gwasanaeth wedi'u rheoli gan rywun sy'n AYB cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol. Nododd wyth gwasanaeth (57%) eu bod nhw yn, a phedwar gwasanaeth (43%) eu bod nhw ddim.

Lle nad oedd gwasanaethau yn cael eu rheoli gan AYB cymwysedig neu AYB o dan hyfforddiant, gofynnwyd am rôl y person a oedd yn rheoli'r gwasanaeth. Roedd atebion yn cynnwys:

- Rheolwr Lles Cynhwysiant ADY
- Rheolwr Cymorth am Ddysgu
- Athro Plant â Nam ar y Golwg Cymwysedig
- Athro gyda chymhwyster arbenigol ôl-raddedig mewn AAA.

**Nifer y darpariaethau adnoddau**

Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol (prif ffrwd neu arbennig) sydd â darpariaeth adnoddau, canolfan neu uned yn benodol ar gyfer plant byddar, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu'r ysgol.

*Tabl 19: Nifer y darpariaethau adnoddau*

| | **Wedi'i reoli gan yr awdurdod lleol** | **Wedi'i reoli gan yr ysgol** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau adnoddau i blant oed cynradd | 3 | 6 | 9 |
| Darpariaethau adnoddau i blant oed uwchradd | 4 | 6 | 10 |
| Cyfanswm | 7 | 12 | 19 |

Cawsom fod:
- gan naw gwasanaeth (64%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oed cynradd yn eu hardal
- gan naw gwasanaeth (64%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oed uwchradd yn eu hardal

Mae'r cyfanswm o 19 darpariaeth adnoddau ledled Cymru yn aros yr un peth ag yn 2022.

*Tabl 20: Nifer y darpariaethau adnoddau dros amser*

| **Blwyddyn[40]** | **Nifer y darpariaethau adnoddau** |
|---|---|
| 2023 | 19 |
| 2022 | 19 |
| 2021 | 20 |
| 2019 | 24 |
| 2018 | 25 |
| 2017 | 25 |
| 2016 | 24 |

[40] Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg

Hefyd edrychwyd ar nifer y darpariaethau adnoddau yn erbyn nifer y plant byddar.[41] Y bwriad oedd dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws Cymru, mewn perthynas â phoblogaeth gyffredinol plant byddar. Cawsom fod, ar gyfartaledd, un ddarpariaeth adnoddau i bob 119 plentyn byddar. Mae hyn wedi gostwng ers 2022 pan oedd un ddarpariaeth adnoddau i bob 122 plentyn byddar.

**Nid** yw hyn yn fesur o nifer y lleoedd sydd ar gael yn, neu'r plant byddar unigol sydd wedi'u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi'u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

Mae'r Atodiad yn cynnwys ffigurau am ledaeniad darpariaethau adnoddau yn erbyn poblogaeth leol plant byddar ym mhob awdurdod lleol.

**Fframweithiau Cymhwyster**

Cofnododd 13 gwasanaeth (100% o'r gwasanaethau a atebodd[42]) eu bod yn defnyddio'r Fframwaith Cymhwyster NatSIP ar gyfer Sgorio Lefelau Cymorth (2017) i helpu penderfynu ar lefel y cymorth a ddarperir gan AYB i blant.

Dywedodd 11 gwasanaeth (85% o wasanaethau) eu bod nhw'n defnyddio'r Fframwaith Cymhwyster NatSIP ar gyfer sgorio lefelau cymorth i blant byddar o enedigaeth i ddiwedd S1 (Meithrin) (2019) er mwyn penderfynu ar lefel y cymorth a ddarperir gan AYB i blant cyn-ysgol. Dywedodd dau wasanaeth (15% o wasanaethau) eu bod nhw ddim yn ei ddefnyddio[43].

**Dyraniadau cymorth**

Ni chofnododd unrhyw wasanaeth unrhyw newidiadau i'w dyraniad cymorth rhwng blynyddoedd academaidd 2021/22 a 2022/23.

**Canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn casglu data ar ganlyniadau addysgol a gyflawnwyd gan blant byddar ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. O'r 13 gwasanaeth a atebodd y cwestiwn hwn:

- dywedodd dau wasanaeth (15% o wasanaethau) eu bod nhw yn, am bob plentyn byddar sy'n byw yn yr awdurdod neu'r awdurdodau lleol lle mae ei wasanaeth yn gweithredu
- dywedodd tri gwasanaeth (23% o wasanaethau) eu bod nhw yn, ond am blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth yn unig.
- dywedodd wyth gwasanaeth (62% o wasanaethau) na.

Ni adroddodd unrhyw un o'r pum gwasanaeth sy'n casglu'r data hwn eu bod yn ei rannu gyda Gweithgor Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG) yn eu hardal.

**Safonau Ansawdd**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r adnoddau neu safonau ansawdd a dywedodd gwasanaethau wrthym eu bod nhw'n eu defnyddio er mwyn archwilio neu wella ymarfer.

---

[41] Defnyddir y cyfanswm cyffredinol a roddwyd gan wasanaethau yma.
[42] Ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.
[43] Ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.

*Tabl 21: Adnoddu a safonau ansawdd a ddefnyddir gan wasanaethau*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran o wasanaethau** |
|---|---|---|
| NatSIP: Safonau Ansawdd i Wasanaethau Cymorth Synhwyraidd yn Lloegr | 6 | 43% |
| Safonau Ansawdd NDCS: Cymorth blynyddoedd cynnar i blant sydd â cholled clyw, o 0 i 5 oed (Lloegr) | 7 | 50% |
| NAFWC 34/2005 – Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrau (Cymru) (2005) | 7 | 50% |
| Safonau ansawdd rhaglen sgrinio clyw babanod | 1 | 7% |
| Pecyn Cymorth Gwella Ansawdd NatSIP | 4 | 29% |
| Adran Iechyd: Pobl Byddar-ddall: Canllaw i awdurdodau lleol | 0 | 0% |
| Arall | 1 | 7% |

Pan atebodd gwasanaethau 'arall', nodwyd eu bod nhw'n defnyddio Fframwaith Cymhwyster NatSIP ar gyfer Sgorio Lefelau Cymorth (2017).

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt wedi rhannu canfyddiadau unrhyw archwiliadau o'r fath neu unrhyw waith a oeddynt wedi'i wneud mewn perthynas â'r safonau ansawdd uchod gyda'r CHSWG dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd un gwasanaeth (8%) ie, dywedodd 10 gwasanaeth (83%) na[44].

**Cymorth yn dilyn adnabyddiaeth o fyddardod**

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt dros flwyddyn galendr 2022.

*Tabl 22: Atgyfeiriadau*

| | **Nifer a chanran yr atgyfeiriadau** | **Nifer y gwasanaethau** [45] |
|---|---|---|
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod | 34 (8%) | 11 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a **chyn** iddynt ddechrau addysg statudol | 108 (24%) | 12 |
| Am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac **ar ôl** iddynt ddechrau addysg statudol | 307 (68%) | 12 |
| Cyfanswm y ffigyrau a roddwyd | 449[46] (100%) | |

Yn nhermau newidiadau ers 2022, mae cyfrannau'r atgyfeiriadau:

- drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod wedi gostwng o 15% i 8%
- y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn iddynt ddechrau addysg statudol wedi gostwng o 25% i 24%
- y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl iddynt ddechrau addysg statudol wedi cynyddu o 61% i 68%
- cyfanswm yr atgyfeiriadau dros y flwyddyn galendr wedi cynyddu o 325 i 449.

[44] Ni ddarparodd dau wasanaeth ateb i'r cwestiwn hwn.
[45] Dyma nifer y gwasanaethu a ddarparodd ffigur dros 0
[46] 449 oedd swm y ffigurau a roddwyd. Swm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 409.

Wedyn gofynnwyd am ba mor gyflym oedd teuluoedd yn derbyn cysylltiad ac ymweliad yn dilyn yr atgyfeiriad cyntaf. Drafftiwyd y cwestiynau hyn gan gyfeirio at [Safonau Ansawdd i Wasanaethau Cymorth Synhwyraidd yn Lloegr NatSIP (2016)] – yn enwedig, safonau A1ii a A1iii.

Cydnabyddwn efallai fod ystod o resymau pam nad yw'n bosib i'r ymweliad cyntaf ddigwydd o fewn amserlenni a amlinellir gan y safonau ansawdd (e.e. nid yw'n bosib i'r teulu i gwrdd). Ond, gobeithiwn fydd y cwestiynau hyn yn helpu adeiladu darlun cenedlaethol o'r ffordd y mae'r safonau hyn yn cael eu cwrdd.

Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, cawsom fod:

- o'r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod, cysylltwyd â 29 o deuluoedd[47] gan AYB o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Mae hyn yn 85% o'r 34 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hon. Y ffigur cyfatebol yn 2022 oedd 69%
- o'r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn iddynt ddechrau addysg statudol, cysylltwyd â 67 o deuluoedd gan AYB o fewn 5 niwrnod gwaith. Mae hyn yn 62% o'r 108 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hon. Y ffigur cyfatebol yn 2022 oedd 74%
- o'r atgyfeiriadau am blant a dderbyniodd adnabyddiaeth o fyddardod y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl iddynt ddechrau addysg statudol, cysylltwyd â 127 o deuluoedd gan AYB o fewn 5 niwrnod gwaith. Mae hyn yn 41% o'r 307 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hon. Y ffigur cyfatebol yn 2022 oedd 42%
- derbyniodd 145 o deuluoedd gynnig o ymweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol) gan AYB o fewn 10 diwrnod gwaith o unrhyw atgyfeiriad. Mae hyn yn 32% o'r 449 o blant a gafodd eu hatgyfeirio naill ai drwy neu'r tu allan i raglen sgrinio clyw babanod. Y ffigur cyfatebol yn 2022 oedd 56%.

Roedd sylwadau gan wasanaethau ar hyn yn cynnwys:

- roedd 'wyneb yn wyneb' yn cynnwys mynediad at AYB mewn grŵp chwarae synhwyraidd, ymweliadau i'r cartref, ac ymweliadau i leoliadau addysgol
- ymweliadau i'r cartref yn cael eu cynnig i blant cyn-ysgol yn unig
- nid oedd rhai gwasanaethau yn derbyn y caniatâd priodol i allu cynnig ymweliadau o fewn yr amserlenni penodedig
- nid oedd yn bosib i rai teuluoedd i gael ymweliadau o fewn yr amserlenni penodedig oherwydd amgylchiadau'r teulu neu ddymuniadau'r rhieni
- cynnydd mewn atgyfeiriadau a chapasiti wedi golygu amseroedd ymateb hwy.

[47] Ar gyfer y cwestiynau hyn am gysylltiad, golygwn gysylltiad go iawn neu ymgais i gysylltu.

## RHAN 5: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), BATOD Cymru, Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Coleg Prifysgol Llundain, Prifysgol Caeredin, cyn-benaethiaid gwasanaethau neu ymgynghorwyr sy’n arbenigo mewn byddardod, a gwasanaethau addysg arbenigol i blant byddar yn Swydd Caergrawnt, Camden, Caint a Leeds.

Mae’r arolwg yn newid o flwyddyn i flwyddyn rhwng arolwg safonol ac arolwg gyda chymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2023 yn cynnwys cwestiynau craidd.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2023 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Lle na fu ymateb erbyn 15 Mawrth, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn gan aelodau CRIDE. Lle nad oedd gwasanaethau wedi ymateb ar ôl hyn, anfonwyd ceisiadau rhyddid gwybodaeth. Mae’r tabl isod yn amlinellu’r gyfradd ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 23: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaethau*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – 15 Mawrth 2023 | 9 | 9 |
| Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt | 3 | 12 |
| Ceisiadau rhyddid gwybodaeth | 2 | 14 |

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau arolwg ar-lein. Pe na baent yn gallu gwneud hyn, roedd yn bosib iddynt ddefnyddio dogfen Word o'r arolwg. Ymgymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffem ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau’r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

## Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl sy’n dilyn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol i ddarparu'r ffigurau o 31 Ionawr 2023.

Mae ffigurau am AYB yn cynnwys AYB sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac AYB sydd o dan hyfforddiant am y CG neu sydd yn bwriadu hyfforddi o fewn tair blynedd.

Bwriad ffigurau ar gyfer poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau yw dangos lledaeniad darpariaethau adnoddau ar draws pob ardal. Cyfrifir trwy rannu nifer y plant byddar sy’n byw mewn ardal lle mae gwasanaeth yn gweithredu a nifer y darpariaethau adnoddau yn ardal gwasanaeth. Lle nad oes darpariaeth adnoddau yn yr ardal, arwyddir hyn gan gymhareb o’r boblogaeth yn yr ardal o 0. Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli’r ffigurau hyn. Mewn rhai achosion, efallai gall y gymhareb gael ei dylanwadu gan bresenoldeb ysgolion arbennig yn yr ardal neu ddarpariaeth adnoddau eraill mewn ardaloedd cyfagos. Dylid nodi **nid** yw hyn yn fesur o’r nifer o’r lleoedd sydd ar gael yn, neu’r plant byddar unigol sydd wedi’u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi’u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

Mewn rhai achosion, mae nifer y plant ar y llwyth achos gyda cholled clyw dros dro yn llai na phump. Pan fydd hyn yn digwydd, rydym wedi defnyddio ‘<5’ yn lle’r ffigur ac wedi defnyddio sero mewn unrhyw gyfrifiadau ar ffigur cyfanswm y llwyth achos. Dangosir hyn gan serennig yn erbyn ffigur y llwyth achos.

*Tabl 24: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth | Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth | AYB sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol | AYB mewn darpariaeth adnoddau | AYB yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol | AYB yn gweithio’n hyblyg | Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont | 164 | 197 | 33 | 1 | 1 | 0 | 1 | 82:1 |
| Caerdydd | 240 | 232 | 76 | 5.6 | 5.4 | 0 | 0 | 120:1 |
| Sir Gaerfyrddin | 149 | 204 | 55 | 2.2 | 3 | 0 | 0 | 75:1 |

| | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu | Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth | Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth | AYB sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol | AYB mewn darpariaeth adnoddau | AYB yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol | AYB yn gweithio'n hyblyg | Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | 53 | 87 | 34 | 0.8 | 1 | Dim wedi'i gofnodi | Dim wedi'i gofnodi | 53:1 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 142 | 129 | 30 | 3.1 | Ni gofnodwyd darpariaeth adnoddau | 0 | 0 | 142:0 |
| Merthyr Tudful | 39 | 36* | <5 | 0.8 | Ni gofnodwyd darpariaeth adnoddau | Dim wedi'i gofnodi | Dim wedi'i gofnodi | 39:0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 98 | 208 | 112 | 2 | 3 | 0 | 0 | 49:1 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint, Sir Dinbych, Wrecsam, Conwy) | 402 | 379 | 81 | 4.2 | 2 | 0 | 1 | 134:1 |
| Sir Benfro | 73 | 129 | 56 | 1 | Ni gofnodwyd darpariaeth adnoddau | 0 | 0 | 73:0 |
| Powys | 103 | 116 | 28 | 2.6 | Ni gofnodwyd darpariaeth adnoddau | 0 | 0 | 103:0 |
| Rhondda Cynon Taf | 92 | 90 | Dim wedi'i gofnodi | 3.2 | 1 | 2 | Dim wedi'i gofnodi | 92:1 |
| De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd) | 455 | 1,074 | 616 | 6.9 | 4.6 | 0 | 0 | 228:1 |
| Dinas Abertawe | 136 | 232 | 94 | 2 | 1.5 | 0 | 0 | 68:1 |
| Bro Morgannwg | 109 | 109 | 6 | 0.4 | 2 | 0 | 0 | 55:1 |